**CYNGOR BRO MACHNO**

**Cofnodion** cyfarfod 26 Ionawr, 2017 a gynhaliwyd yn Festri Salem am 7.30.

**Presennol:** Dafydd Gwyndaf (Cadeirydd), Dewi Jones, Colin Jones, Eryl Owain, Eifion Davies a Geraint Thomas.

Ymddiheuriadau gan Aled Roberts a Dafydd Hughes.

**Derbyniwyd cofnodion** cyfarfod o'r Cyngor ar 19 Hydref, 2016 fel rhai cywir.

Trafodwyd y materion canlynol:

**Toiledau** – cafwyd adroddiad gan y clerc ei fod wedi cysylltu â Chyngor Sir Conwy amryw o weithiau i gael gwybod pam nad yw'r gwaith wedi ei gwblhau a chael ateb eu bod yn disgwyl cyflenwad trydan i'r adeilad.

Adroddodd hefyd bod ad-daliad o gostau glanhau yn ddyledus.

Darllenwyd llythyr gan Sandra Jones ei bod yn rhoi'r gorau i lanhau'r toiledau. Gofynnwyd i'r clerc ddanfon llythyr o ddiolch iddi am ei gwasanaeth dros flynyddoedd lawer.

**Materion Ffyrdd** – cadarnhaodd y clerc ei fod wedi cael cyfarfod buddiol efo Kevin Jones ar ran y Cyngor Sir i ddelio â'r materion a godwyd yn y cyfarfod diwethaf.

Nodwyd bod angen sylw i ffordd Hafod-y-rhedwydd – y clerc i gysylltu ag adran briffyrdd y Cyngor Sir.

**Maes parcio ger yr Hen Ysgol** – adroddwyd bod y gwaith o ymestyn a gwella'r maes parcio wedi ei gwblhau i safon derbyniol iawn.

**Coed Nadolig** – diolchwyd i Colin Jones a Dewi Jones am nôl a gosod y goeden ym Mhenmachno.

**Llwybr y Waen** – adroddwyd bod baw cŵn yn broblem fawr ar y llwybr hwn yn arbennig; penderfynwyd cysylltu â'r warden cŵn.

**Ffos wedi cau ar Dir Blaen-ddôl** – gofynnwyd i Eryl Owain drafod y mater efo'r perchennog.

**Sbwriel ger y safle bws** – y clerc i gysylltu â'r adeiladydd.

**Arwydd ger cyffordd yr A5** – cysylltu â'r cyngor sir oherwydd ei fod yn uniaith Saesneg.

**Materion Ariannol** – cyflwynwyd adroddiad ariannol gan y clerc ynghyd âg amcangyfrif o anghenion ariannol am y flwyddyn i ddod. Wedi ystyried costau megis cynnal y mynwentydd a gwella'r maes parcio ger yr Hen Ysgol, a'r posibilrwydd y byddai etholiad, penderfynwyd cadw at y praesept bresennol o £5000.